OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 728 (Cy.64) (C.47)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 18 Mawrth 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 40 a 44(3) a (5) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y Diwrnod Penodedig

2. 6 Ebrill 2009 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym —

(a) adran 30 (symud y cyfyngiad ar wrando cais am ryddhau gorchymyn amddiffyn brys);

(b) adran 35 (estyn y cyfnod a ganiateir i wneud rheoliadau o dan adran 45 neu 46 o Ddeddf Plant 2004(**2**)); ac

(c) adran 42 ac Atodlen 4 (diddymu) i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu adran 45(9) o Ddeddf Plant 1989(**3**).

Gwenda Thomas
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

18 Mawrth 2009

(**1**) 2008 p.23.
(**2**) 2004 p.31.
(**3**) 1989 p. 41.